Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Carmel

Neuadd Bentref
Carmel
Caernarfon
LL54 7AA

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn â Cylch Meithrin Carmel

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Carmel |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn. |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenan Owen a Elin Mackenzie |
| Person â gofal | Catherine Ellis-Pritchard a Keely Thompson |
| Nifer y lleoedd | 12 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.45am – 12.45 pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/01/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16/06/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Gwella’r ddarpariaeth a’r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd y plant

A2 Cryfhau’r defnydd o asesiadau ymarferwyr i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau sy’n adeiladu’n effeithiol ar gamau nesaf plant yn eu dysgu a’u datblygiad

A3 Mynd i’r afael â’r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd addas i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio'u hamser. Mae bron bob plentyn yn archwilio'u hamgylchedd yn hyderus a diogel gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn llwyddiannus. Maent yn gwneud dewisiadau'n addas ac yn manteisio ar y cyfle i symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd. Er enghraifft, wrth benderfynu chwarae gyda thoes i greu cacen pen-blwydd neu adeiladu tŵr gyda theiliau magnetig. Mae rhan fwyaf o'r plant yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn mynegi eu hanghenion a'u syniadau'n glir. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ofyn am gyngor i agor caead potel er mwyn ei llenwi â dŵr.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac maent yn gyfforddus yng ngofal ymarferwyr. Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Er enghraifft, maent yn gwybod bod angen golchi a sychu eu dwylo cyn bwyta a chyn brwsio dannedd.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn creu perthynas briodol gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf o'r plant yn cyd-chwarae â'i gilydd yn dda. Maent yn dilyn rheolau'n llwyddiannus ac yn dangos parch a charedigrwydd naturiol tuag at ei gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio â phlant eraill i lenwi cynwysyddion amrywiol gyda dŵr ac yn helpu eraill i roi cot ar fachyn.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant ac annibyniaeth wrth chwarae, yn enwedig wrth ddilyn eu syniadau eu hunain ac arbrofi yn yr awyr agored. Maent yn manteisio'n dda ar gyfleoedd dysgu ysgogol sy'n eu hannog i archwilio a darganfod, er enghraifft, trwy ddefnyddio teiars a phlanciau pren i greu pontydd a cherdded drostynt.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau hunan-gynhaliol da. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys diodydd, yn defnyddio cyllell i daenu menyn ac yn torri ffrwythau o dan arweiniad oedolyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos aeddfedrwydd a gofal parchus yn ystod amser bwyd.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol, ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, gan gynnwys cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn rhoi sylw cyson i hylendid plant gan eu hatgoffa'n rheolaidd i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Maent yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn rheolaidd ac i fwyta ac yfed yn iachus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â'r plant. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn eu cefnogi'n sensitif i ddyfalbarhau â gweithgareddau. Er enghraifft, wrth dorri ffrwythau, maent yn annog y plant i ganolbwyntio a dal y cyllell yn gywir. Agwedd nodedig o waith y lleoliad yw'r ffordd mae ymarferwyr yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar, sy'n hybu lles a datblygiad plant yn effeithiol. Maent yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd wrth i blant gyrraedd yn y bore, ac yn fodelau rôl gadarn. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob plentyn yn dda ac maent yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion mwyafrif o'r plant yn briodol, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n dda i fagu hyder plant gan drefnu cyfleoedd diddorol, sy'n cael eu harwain gan ddewisiadau a diddordebau'r plant. Maent yn olrhain cynnydd plant yn briodol ac yn dechrau defnyddio'r arsylwadau hyn yn achlysurol i greu profiadau chwarae addas. Mae ymarferwyr yn annog y plant yn dda i archwilio a darganfod yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol ac yn gweithredu'n briodol ar gyngor arbenigwyr. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion pob plentyn. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol mewn cyd-destunau dilys sy'n ennyn diddordeb ac yn hybu datblygiad y plant yn llwyddiannus. Maent yn cynnig cyfleoedd sy'n annog y plant i fod yn archwilwyr hyderus a gofalgar o fewn eu hamgylchedd. Er enghraifft wrth fynd ar daith natur i ddarganfod gwahanol fathau o anifeiliaid a gofalu am bethau byw fel blodau a phryfed. Mae ymarferwyr yn meithrin annibyniaeth a chwrteisi'n dda, gan annog plant i gymryd eu tro, gweini bwyd amser byrbryd, tacluso ac ailgylchu yn ôl yr angen.

Mae gan ymarferwyr berthynas gadarn â’r plant, gan fodelu gweithgareddau a chefnogi chwarae rhydd ac arbrofol yn ddeallus. Maent yn pwyso a mesur pryd i ymyrryd i gyfoethogi’r dysgu yn fedrus, er enghraifft maent yn arsylwi plant yn chwarae’n greadigol gyda thoes, cyn eu herio’r a’u cwestiynu’n gelfydd.

Mae’r ddarpariaeth yn cefnogi datblygiad ym medrau’r plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo’r Gymraeg yn llwyddiannus trwy ganu bywiog a chyflwyno geirfa a phatrymau iaith yn gyson. Maent yn datblygu medrau darllen cynnar plant yn llwyddiannus gan feithrin eu diddordeb mewn llyfrau a straeon yn hwylus. Hefyd, maent yn eu cymell i arbrofi wrth greu marciau’n dda.

Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol cynnar y plant yn briodol ac yn adlewyrchu eu cam datblygiad. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn darparu ystod o adnoddau priodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd plant ac yn eu defnyddio’n achlysurol i ymestyn dealltwriaeth y plant o rif a maint. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn manteisio’n ddigon aml ar gyfleoedd i fodeli, a dyfnhau dealltwriaeth plant o rifedd yn ystod eu chwarae.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau tu fewn a thu allan sy’n annog plant i fentro a datblygu medrau corfforol a chreadigol yn dda. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant archwilio trwy gydbwyso, gyrru beiciau, palu ac adeiladu.

Mae gweithdrefnau arsylwi addas ar waith, ac mae ymarferwyr yn defnyddio’r arsylwadau i nodi anghenion a chamau nesaf priodol i ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, nid ydy’r cynllunio yn ddigon pwrpasol i sicrhau cynnydd ym medrau’r plant yn ddigon effeithiol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol. Maent yn dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn effeithiol trwy ddigwyddiadau fel dydd Miwsig Cymru a’r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r gymuned leol i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant trwy ymweld â gardd y coleg lleol i arsylwi ar gylch bywyd pili-pala.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda gyda threfniadau priodol ar gyfer derbyn ymwelwyr. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn defnyddio asesiadau risg perthnasol, gan gynnwys asesiadau risg tân, i gadw plant yn ddiogel. Maent yn ystyried risgiau'n ofalus wrth gynllunio ymweliadau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant fentro a chymryd risgiau diogel pan yn briodol. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn dathlu creadigrwydd a llwyddiannau plant trwy arddangos eu gwaith mewn ffrâm ddigidol. Maent yn cyfeirio’n rheolaidd at ffotograffau o deuluoedd y plant sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at yr ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd chwarae sy’n gyfforddus a chysurus. Mae’r ardaloedd wedi eu trefnu’n dda ac yn cynnig cyfleoedd priodol i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol, sydd wedi’u lleoli o fewn cyrraedd y plant. O ganlyniad, mae hyn yn caniatáu i’r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau defnyddio.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei ddefnyddio’n rheolaidd. Mae’r ardal wedi’i threfnu’n briodol ac yn cynnwys cyfleoedd amrywiol i blant archwilio a datblygu medrau, fel y gegin fwd, ardal tyfu planhigion ac ardaloedd tywod a dŵr. Yn ogystal, darperir adnoddau pwrpasol sy’n cefnogi datblygiad corfforol ac echddygol y plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn darparu dodrefn priodol ar gyfer byrbrydau sy’n hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol sy’n briodol ar gyfer oedran a cham ddatblygiad y plant, ac mae'r rhain wedi eu gosod ar lefelau sydd o fewn cyrraedd. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau’n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau o ansawdd da ar gael i’r plant, gan gynnwys adnoddau sy’n hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft doliau a llyfrau. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu gweithgareddau sy’n helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau a dathliadau gwahanol megis Dydd Sant Padrig a Dydd Gŵyl Dewi. Mae hyn yn dyfnhau dealltwriaeth y plant o ddathliadau amrywiol ar draws y byd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Digonol

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n dechrau llywio cyfeiriad gwaith y lleoliad yn bwrpasol. Mae ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol fel tîm, yn cynorthwyo’i gilydd yn dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gweithredu’n effeithiol i ddatblygu arferion sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau’r plant mewn awyrgylch Gymreig. Mae’r datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir i rieni o’r hyn a gynigir.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau ac yn gweithredu yn unol â safonau a rheolau gofynnol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dangos tystiolaeth o weithdrefnau recriwtio diogel i sicrhau bod ymarferwyr yn addas i weithio gyda phlant.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau trefniadau priodol ar gyfer monitro a dilysu gwaith y lleoliad. Maent yn nodi cryfderau’r lleoliad a’i feysydd i’w gwella yn effeithiol, er enghraifft gwella’r ddarpariaeth i ymestyn medrau creadigol a chorfforol y plant trwy brynu offer newydd. O ganlyniad, mae medrau corfforol a hyder y plant yn datblygu’n dda. Mae ganddynt brosesau addas ar gyfer goruchwylio gwaith ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hyn wedi cael eu ffurfioli’n ddigon trylwyr i arfarnu cynnydd yr ymarferwyr a gosod targedau cytunedig priodol yn gyson.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau'n effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau'n ddoeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant priodol, a thrwy gyllido adnoddau defnyddiol sy'n hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

Mae gan arweinwyr drefniadau trosglwyddo pwrpasol sy'n cefnogi plant yn effeithiol wrth iddynt baratoi i symud i'r ysgolion cynradd lleol. Mae ganddynt ystod o bartneriaethau buddiol fel rhieni, yr awdurdod lleol, ac asiantaethau allanol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant. Mae rhieni'n gwerthfawrogi derbyn gwybodaeth bwrpasol am ddatblygiad eu plant trwy gyswllt dyddiol a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2026